

Cyngor Tref  
CRICCIETH

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWIWYD NOS LUN 13 HYDREF 20014 YN  
SIAMBR Y CYNGOR, STRYD FAWR, CRICCIETH.

---

COPI DRAFFT.

Gweddï Agoriadol.

.....

Cymerwyd y Weddi gan y Cadeirydd Cyng. Eirwyn Williams

Yn dilyn y Weddi bu i'r Cyngor yn y ffordd arferol gydymdeimlo a'r Is Gadeirydd, Cyng. W A  
Evans yn ei brofedigaeth o golli ei frawd Ifor Williams yn ystod yr wythnos flaenorol.

Cof;-0110/14 Presennol.

.....

Cadeirydd, Cyng. Eirwyn Williams

Is Gadeirydd Cyng. W A Evans

Cyng. Wayne Roberts.

Cyng. Elisabeth Regan

Cyng. Elisabeth George.

Cyng. Dafydd Lloyd.

Cyng. R Cadwalader.

Cyng. Phil Jones.

Cyng. Henry Jones

Cof;- 0210/14 Ymddiheuriadau.

.....

Cyng. R T Price

Cyng. Dr E Tudor Jones,

Cyng. Sian Williams.

Cof;-0310/14 Datgan Diddordeb.

.....

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan diddordeb mewn materion oedd wedi ei rhestru ar y rhaglen ac i'w  
trafod yn y cyfarfod.

Cof;-0410/14 Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mis Medi.

.....  
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod Mis Medi fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol a'r gyfraith.

Cof;-0510/14 Materion yn codi trwy ohebiaeth.

.....  
a) Torri coed ar Lon Fel.

Yn dilyn ymholiadau'r Cyngor derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Cyngor Gwynedd yn egluro  
1 Nid oes gorchymyn diogelu ar y coed dan sylw ac nid ydynt o fewn ardal cadwraeth, felly nid oedd angen caniatâd cynllunio cyn ei torri.

2 Nid oedd gan y Cyngor awdurdod i ymyrryd a'r sefyllfa gan nad oedd y coed ar y brif ffordd nac ar eiddo'r Cyngor.

Byddai unrhyw waith o dorri coed er mwyn gwarchod ceblau trydanol wedi cael ei gytuno rhwng y tiffeddiannwr ar cwmni trydan.

3 Mae yn ymddangos fod caniatâd wedi ei roddi ar gyfer gosod goleuadau traffig ar y ffordd.

PENDERFYNIAD;- Derbyniwyd yr wybodaeth a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a Chyngor Gwynedd i geisio cael y winllan wedi ei chofrestru fel ardal cadwraeth.

Cof;-0610/14 Ceisiadau Cynllunio.

.....  
a) Cais C14/0908/35/LL

Newidiadau allanol i gynnwys ramp newydd, drws newydd a gwaoth peirannyddol ar gyfer hwyluso cadeiriau olwyn i fewn i'r Capel.

Dol y Nant, Radcliffe Road.

PENDERFYNIAD:- Argymell Caniatáu.

b) Cais C14/0951/35/LL

Adeilad croeso newydd, pabell fawr dros dro a ty ar gyfer perchennog gan gynnwys gosod tanc septig newydd.

Mynydd Ednyfed, Ffordd Caernarfon.

PENDERFYNIAD:-Argymell caniatáu.

*(Ni fu ir Cyng. Eirwyn Williams, yr Aelod lleol ar Gyngor Gwynedd gymeryd unrhyw ran yn y trafodaethau, penderfyniadau na phleidleisio ar y cynlluniau uchad)*

Cof;-07101/4 Hysbysfwrdd y Cyngor.

.....

Tynnwyd sylw gan Aelod fod peth gwaith cynnal a chadw ei angen ar yr hysbysfwrdd sef paentio

PENDERFYNIAD;- Addawodd y Cyng. Dafydd Lloyd ac Eirwyn Williams ymgymryd a'r gwaith, y Cyngor i brynu'r paent.

Cof;-0810/14 Amcangyfrif o Incwm a Gwariant y Cyngor i 31/3/2015.

.....

Cyflwynodd y Clerc adroddiad llawn o amcangyfrif incwm a gwariant y Cyngor hyd at Fawrth 2015 yn dangos faint o arian sydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn gyfredol ar gyfer prosiect neu gyfraniadau ariannol.

PENDERFYNIAD;- Derbyniwyd yr wybodaeth.

Cof;-0910/14 Archwiliad ar ddogfennau ariannol y Cyngor.

.....

Bu i gynrychiolaeth o'r Cyngor archwilio dogfennau ariannol y Cyngor .

PENDERFYNIAD;- Yn dilyn archwiliad y llyfrau ni chanfuwyd unrhyw beth o'i le. a rhoddwyd hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc lofnodi unrhyw ddogfennau perthnasol ar ei rhan.

Cof;-1010/14 Nadolig 2014.

.....

Adroddodd y cleric ei fod mewn cysylltiad a'r trydanwr ar gyfer gosod y golau Nadolig ac yr oedd yn amcangyfrif y gost yn tua £10,000

PENDERFYNIAD;-Derbyniwyd adroddiad y Clerc.

Cof;-1110/14 Adfywio Bro.

.....

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Swyddog Adfywio Bro yn egluro fod cronfa "Arian i Bawb" yn ystyried ceisiadau am grantiau bychain sydd rheng £500 a £5,000 ar prosiectau cymunedol, iechyd ac amgylchedd a threftadaeth ac o bosibl gall y gronfa yma ariannu prosiect fel tirlunio Maes Merllyn.

PENDERFYNIAD;-Derbyniwyd yr wybodaeth a gofynnwyd i'r Clerc roi eitem ar raglen y cyfarfod nesaf er mwyn i bawb gael cyfle i feddwl am brosiect lle gellir cymeryd mantais o unrhyw grant sydd ar gael.

Cof;-1210/14 Her Gwynedd.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Cyngor Gwynedd yn egluro ei bod yn wynebu fel pob Cyngor arall her ariannol sylweddol oherwydd y toriadau anferthol yn y Cyllid sydd ar gael gan y Llywodraeth. Golyga hyn y bydd llawer llai o arian ar gael i dalu am wasanaethau'r Cyngor a bydd y bwllch ariannol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Tros y misoedd nesaf bydd cyfle i bobl leol ddeall mwy am y sefyllfa ariannol, lleisio barn a chyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael a'r her. Mae cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus wedi ei trefni i wrando ar farn trigolion am y gwasanaethau sydd yn bwysig iddynt hwy ei teulu a'i cymuned.

Gan fod i'r Cynghorwyr Bro a Thref gyfoeth o wybodaeth am ei ardal mae cais am iddynt anfon cynrychiolydd i un o'r cyfarfodydd.

PENDERFYNIAD;-Derbyniwyd y wybodaeth a gofynnwyd i'r Aelodau geisio gwneud ymdrech i fynd i'r sesiynau, gan gofio fod sesiwn ym Mhwillheli a Phorthmadog ar wahanol ddyddiadau.

Cof;-1310/14 Taliadau.

£97.00 Cyllid y Wlad	Siec 100915
£110.00 Dream Internet Solutions - Gwefan y Cyngor	Siec 100916
£31.00 Swyddfa Post - stampiau	Siec 100917
£254.00 Atkin Groundworks -Mynwent Penymaes	Siec 100918

PENDERFYNIAD;- Derbyniwyd yr wybodaeth a rhoi hawl i'r clerc dalu yr oll o'r biliau.

---

Daeth y Cyfarfod i ben am;- 7.45.y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Lun 10 Tachwedd 2014

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 31 Hydref 2014.

---